

Olaparib ar gyfer triniaeth gynnal i ganser ofarïaidd, y tiwb ffalopaidd a pheritoneol atglafychol, sy'n sensitif i blatinwm, ac sydd wedi profi'n bositif ar gyfer y mwtadiad BRCA ar ôl ymateb i gemotherapi ail-linell neu gemotherapi dilynol sy'n seiliedig ar blatinwm

Ionawr 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir Olaparib (Lynparza) fel triniaeth bosibl ar gyfer pobl sydd â chanser ofarïaidd, y tiwb ffalopaidd neu beritoneol [atglafychol](#), o dan yr amgylchiadau canlynol:

- mae eu canser yn [sensitif i blatinwm](#)
- mae wedi profi'n bositif ar gyfer [mwtadiadau BRCA1 neu BRCA2](#)
- maent wedi cael 3 chwrs o gemotherapi sy'n seiliedig ar blatinwm neu fwy

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych ganser fel y disgrifir uchod, a bod eich meddyg yn credu mai olaparib yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai olaparib fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Os ydych eisoes yn cymryd olaparib ar gyfer canser ofarïaidd, y tiwb ffalopaidd neu beritoneol nad yw'n cael ei argymell uchod, dylech barhau i'w gymryd nes eich bod chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn rhoi'r gorau i'w gymryd.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Mae NICE yn rhoi ystyriaeth arbennig i driniaethau a all ymestyn bywydau pobl sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes. Argymhellwyd olaparib ar gyfer pobl sydd wedi cael 3 chwrs neu fwy o gemotherapi sy'n seiliedig ar blatinwm neu fwy, oherwydd gellir cyfiawnhau'r costau drwy'r manteision y mae'n ei ddarparu, ar ôl rhoi ystyriaeth arbennig iddo.

Y cyflyrau a'r driniaeth

Mae'r ofarïau yn rhan o system atgenhedlu merched ac wedi'u lleoli yn yr abdomen. Gall cancer ddigwydd yn y meinwe sy'n gorchuddio'r ofarïau, yn y tiwbiau sy'n arwain o'r ofarïau i'r groth (cancer y tiwb ffalopaidd) neu yn y bilen sy'n leinio tu mewn yr abdomen (cancer peritoneol).

Mae celloedd fel arfer yn cynnwys genynnau sy'n diogelu rhag cancer - maent yn atgyweirio unrhyw niwed sy'n digwydd yn naturiol pan fydd celloedd yn rhannu. Os oes gennych fersiynau diffygiol (mwtadiadau) o'r genynnau hyn mae'n cynyddu eich risg o ddatblygu cancer yn sylweddol oherwydd na all gennynnau diffygiol atgyweirio celloedd sydd wedi'u niweidio, a gall hyn arwain at ganser. Mwtadiadau gennyn yw BRCA1 a BRCA2 sy'n cynyddu'r risg o gael cancer.

Y driniaeth gyntaf ar gyfer cancer ofarïaidd fel arfer yw cyffuriau cemotherapi sy'n seiliedig ar blatinwm. Ystyr 'sensitif i blatinwm' yw bod y cancer wedi dychwelyd (atglafychu) fwy na 6 mis ar ôl y ddogn olaf o gyffuriau cemotherapi sy'n seiliedig ar blatinwm.

Mae olaparib yn gyffur sy'n lladd celloedd cancer.

[Gall NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Ffynonellau cyngor a chymorth

- Ovarian Cancer Action, 0207 380 1730, www.ovarian.org.uk
- Ovacome, 0845 371 0554, www.ovacome.org.uk
- Target Ovarian Cancer, 020 7923 5470, www.targetovariancancer.org.uk
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000, www.macmillan.org.uk

- Gwybodaeth i Gleifion Cancer Research UK (CancerHelp UK yn flaenorol),
0808 800 4040, www.cancerresearchuk.org/about-cancer

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1802-7